YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1886. [RHIF 64.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYLEDSWYDDAU CREFYDDOL YR IEUAINC.

GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

LLITH V.

"*Cofia yn awr dy Greawdwr.*" *Preg. xii. 1.* "*Byddaf yn Dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac gn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog.*" *2 Cor. vi. 18.*

YR wyf yn barod wedi bod yn eich anerch fel rhai yn berchen ar alluoedd meddyliol, yn gofyn cael eu harfer ar eu priodol wrthddrychau, a'u cadw yn barhaus mewn gwaith, mewn trefn i chwi gyrhaedd un o fendithion gwerthfawrocaf dyn—gwybodaeth. Yr wyf yn barod wedi dweyd rhyw gymmaint wrthych am eich dyledswyddau fel aelodau o gymdeithas, fel rhai a fynoch ag ereill o amgylch i chwi, a chenych eich rhan i'w gwneyd tuag at leshau a dedwyddu eich cyddynion, a gwneyd cymdeithas mor bur a dyrchafedig ag y bo modd. Mae yn aros i mi etto i alw eich sylw yn fwy neillduol at eich dyledswyddau crefyddol; eich dyledswyddau, nid yn unig fel bodau deallol a moesol, ond hefyd yn fwy uniongyrchol fel plant i'r Tad Goruchaf; fel y rhai ag y mae a fynoch â chrefydd; fel rhai wedi eich gwneyd yn gymhwys i ddirnad ei natur a'i gwerth, i fwynhau ei gwynfydau, ac i gael eich dyrchafu trwyddi i'r gymdeithas hono â'r Tad a'i Fab Iesu Grist. Mae eich holl ddyledswyddau yn cydsefyll ac yn cydredeg â'u gilydd heb y gwrthwynebiad lleiaf rhyngddynt. Ni ddylid darostwng y naill wrth ddyrchafu, neu er mwyn dyrchafu'r llall. Maent oll yn hol eu hawdurdod o'r un ffynnoncll. Mae y cyflawniad cydwybodol a diwyd o honynt oll yn angenrheidiol er ffurfio cymmeriad dynol cyfan a dyrchafedig. Ond yn ddiau, mae eich dyledswyddau crefyddol mor

bwysig ag i hawlio sylw ar eu penau eu hunain am ychydig amser, ac ni faidd neb o honoch wadu fod y rhai hyn i gael lle nid israddol, o leiaf, i'ch dyledswyddau ereill. Gan hyny, dymunaf eich sylw mwyaf astud am ychydig amser yn mhellach.

Mae crefydd yn golygu fod y bywyd oll yn cael ei drefnu megys gerbron Duw, fod crediniaeth ddofn yn y galon fod pob peth sy'n eiddo i ddyn i gael ei gyssegru i wasanaeth Duw; pob cynneddf meddwl, pob aelod o'r corff i gael ei roi i Dduw yn offrwm ac yn aberth o arogl peraidd. Yn neillduol, mae yn golygu fod y meddwl i ymhyfrydu yn y myfyrdod am, i ymblesera yn y cymdeithas â Duw, fod y fynwes yn cael ei dal yn agored i ddylanwadau Ysbryd Duw, yn cael ei chadw'n deml lân iddo ef i ddyfod, yn ei oleuni pur ac yn ei dangnefedd dwfn, i breswylio ynddi. Swydd crefydd yw dwyn dyn i fwy o gyd-darawiad â Duw, i fwy o undeb ewyllys a bwriad a dedwyddwch â'r Tad perffaith. Ei llais hyfryd yw, "Byddwch chwi, gan hyny, yn berffaith fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Pwy o honoch a fyddai ddifater yn nghylch nod mor uchel â hyn? Pwy o honoch a geisiai esgusodi ei hun am adael i bethau ereill gau allan o'ch golwg amcan mor odidog?

Mae yn ddiamheu genyf fod y Bod Mawr ar amserau, o leiaf, yn meddyliau pawb o honoch. Nid oes neb o honoch nas ymwelir ag ef ar droion, nad p'un a geisioch hyn ai peidio, â'r meddwl fod Bod, a hwnw y mwyaf, y doethaf, y goreu o bawb. Dichon mai yn mhlith torf o bethau ereill, fel rhyw ymwelydd achlysurol, y daw, ac na cha nemawr arosfa yn y myfyrdod. Pe gwyddwn ei bod fel arall, ni fyddai eisieu i mi eich anerch ar y pen hwn. Wrth ddylyn eich gorchwylion ar y maes neu yn y ty, yn yr olwg ar yw wrthddrych neu amgylchiad neillduol, diamheu genyf y

"Teimlwch Fod Mawr a'i gariad Ef
Fel gwlith o'r nef yn dyfod."

Mi a ddymunwn arnoch i ddal gafael ar y fath achlysuron gwerthfawr, a chymhell y meddyliau hyn i ddyfod yn fwy arosol ac yn fwy cysson, nes y byddo i'ch bywyd drwyddo gael ei loni a'i harddu a'i wneyd yn wynfydedig gan grefydd. Ac yn

1. *Ystyriwch y ffaith ddarfod i'r Creawdwr eich gwneyd yn fodau crefyddol*—eich cynnysgaethu â thuedd naturiol at grefydd. Nid yn ofer ac am ddim y bu hyn. Os ydych yn gofyn am brawf i'r Creawdwr ein llunio ni, ei greaduriaid rhesymol, o duedd grefyddol, yr hyn ni thybiaf a wnewch, mae y prawf i'w gael yn hanes y byd, gan nad oes genedl na llwyth o ddynion, oddieithr yr iselaf, y rhai nad ydynt ond yn arwain y peth nesaf i fywyd anifeilaidd, heb un gynneddf mwy nâ'u gilydd wedi ei dadblygu, a'r na cheir yn amlygu tuedd gref, naturiol, yn ol y goleuni sydd ganddynt, i ymofyn yn nghylch crefydd ac i gydsynio â'i gofynion tybiedig, gan fwynhau y cyssur a dardd o hyn. Y casgliad rhesymol yw, fod cyfatebiad naturiol rhwng dyn a chrefydd—fod mewn dyn yr hyn na ddigonir ac na ddedwyddir drwy un cyfrwng

arall. Yn awr, nid oes un gallu nac un duedd a roddwyd i ni i gael ei chadw yn segur a diwaith. Fel y mae y deall, y rheswm, y gydwybod, i gael eu harfer, felly hefyd serchiadau uwchaf dyn, yr enaid, a fynant Dduw ei hun fel yr unig wrthddrych teilwng iddynt. Mae yn gorphwys arnom ni i feithrin y cwbl oll a roddes Duw i ni; marchnata yn ddiwyd ac yn ddoeth â phob gallu a chymhwysder a thuedd, heb ddal ein hunain yn ddiesgus cyhyd ag y bo dim yn cael ei esgeuluso genym. Mae pob esgeulusdod yn esgor ar ganlyniadau trymion a galarus i ddyn, gan nad oes dim wedi ei roddi i ni ond y sydd yn yr ymarferiad o hono i ateb dybenion o'r mwyaf pwysig a godidog. Fel nad yw y Tad Goruchaf yn feistr caled, nid yw, ychwaith, yn afradloni ac yn gwastraffu ei ddoniau heb fod un gofal na sylw ar eu hol. Ac y mae pob rhagoroldeb i'w gyrhaedd trwy ymdrech ac ymarferiad. Nid oes neb yn cael ei eni i'r byd hwn yn sant parod: mae gwaith ymroi a gwylio, gwrteithio a gweddio ganddo. Yn gyntaf, yr eginyn; wedi hyny, y dywysen; ac wedi hyny, yr ŷd yn llawn yn y dywysen. Gwan yw'r afon yn y dechreu—yr afon fawr, lydan, donog, a welwn yn disgyn i'r môr, yn nofio llongau mawrion; ond

Hi fu'n afonig yn y pant,
A chwyddwyd hi gan lawer nant,
Nes llydan yw ei ŵely 'nawr.

"O," meddech, "ni a adawn rhwng crefydd a'i helynt. Os gwnaeth Duw ni yn grefyddol, crefyddol fyddwn." Na chamsyniwch. Gwnaeth Duw chwi yn fodau deallol, ond rhaid i chwi arfer eich deall, ymdrechu ac ymdrechu yn galed i'w feithrin a'i ddwyn allan yn mhob modd. Mae'r defnyddiau genych, a dyna i gyd. Dim ond y defnyddiau a roddwyd i ni yn mhob peth. Dim yn barod—dim gwybodaeth barod, dim uniondeb a chyfiawnder parod, dim cariad parod, dim sancteiddrwydd a duwioldeb parod. Rhaid i ni saernio pob rhinwedd a rhagoroldeb â'r galluoedd a'r defnyddiau a roddes y Creawdwr da i ni. Yn raddol rhaid i ni ddringo ar hyd yr ysgol. Rhaid i ni ddysgu oddiwrth bob peth—yr ymddiriedaeth, y serch, y cariad greddfol, a welwn yn y baban ac yn y plentyn. Rhaid i'r rhai hyn gael eu parhau a'u cryfhau, a'u trosglwyddo oddiwrth rieni dynol at y Bod perffaith—Tad trugarog a daionus pob un o honom. Yr ydym yn ysgol crefydd o'r dechreu. Fel plant bychain y rhaid i ni ddyfod at Dduw, ac at ei wirionedd, ac at ein dyledswydd; a gwyr pawb o honom beth yw bod yn blant bychain. Nid yw'r adgof melus am y dyddiau dedwydd hyny, trwy drugaredd, wedi pasio ymaith o'r cof. O meddyliwch, beth fyddai dyn pe na chai na thad, na mam, na brawd, na chwaer, nac un perthynas caredig, i ofalu am dano yn nghyflwr diamgeledd ei fabandod a'i febyd. Agwedd druenus a galarus fyddai arno—ond dim o'i chymmharu ag eiddo dyn wedi tori ei hun ymaith oddiwrth y Tad goreu, Tad ffyddlonaf, caredicaf, pob un o honom, yr Hwn y mae ei gariad pur am danom ar un llaw ac ar y llall.

2. Mae hyn yn fy arwain i sylwi pa mor bwysig yw eich bod yn ffurfio golygiadau priodol a theilwng am Dduw; nid golygiadau am dano yn iselach a chaletach nag y beiddiem eu coleddu am ein cyfeillion dynol; nid golygiadau yn priodoli iddo yr hyn na allem ei gymmeradwyo fel cynllun i'n hunain a'n cyd-ddynion i ymddwyn wrtho; y golygiadau uwchaf, puraf, mwyaf cysson, a mwyaf cyssurlawn. Gwnewch hyn er mwyn rhoi pob mantais i grefydd fod yr hyn a ddylai ynoch. Mae crefydd yn bodoli lle mae golygiadau rhanol a thywyll, ac hyd y nod barbaraidd am Dduw, ond yn yr olwg arni yn mynu sylw o dan y fath amgylchiadau, ac yn cyflawnu y fath bethau mawrion, nis gallwn lai na thori allan a dweyd, "Pa beth a allasai'r dynion hyn, neu'r genedl hon, gyda theilyngach golygiadau am wrthddrych mawr crefydd?"; fel wrth glywed yr uchedydd bach yn y *cage* yn canu mor beraidd y dywedwch, "Ah! beth pe cawsai ganu yn ei elfen ei hun?"

Anwyl gyfeillion, mi a ddymunwn arnoch i holi eich hunain, ac edrych yn ofalus a yw Duw yn mhob dim y Bod goreu, doethaf, mwyaf cyfiawn, mwyaf trugarog, mwyaf tadol, yn eich golwg? Dymunwn ar fod i chwi ochelyd beichio eich hunain a thybiau am dano, a allant am dro eich dychrynu, mae'n wir, ond a'ch gadawant yn y diwedd mor bell oddiwrth rinwedd a duwioldeb ag ar y dechreu. Nid yw fod ereill wedi coleddu'r tybiau hyn yn un rheswm paham y dylech chwi wneyd. Os bu ac os oes rhai yn barod i feddwl am dano fel yn ddigllawn a dialgar, ar un llaw, neu, ar y llaw arall, yn ddeddfol, pa beth a wna ei greaduriaid, ac heb drefnu fod i'r drwg ei gosp, i ddaioni ei wynfyd, neu, ynte, ei fod mor dyner, mor barod i gyfnewid ei ddeddfau perffaith, fel, er i bechadur wneyd drwg ganwaith, etto, na chaiff ddyoddef dim, neu, ond ychydig am hyn. Nid oes rheswm paham na ddylech chwi godi i dir uwch. Edrychwch arno fel y Tad perffaith, a chanddo ei ddeddfau wedi eu gosod i bob peth, ond oll yn ddaionus a llawn ewyllys da; ganddo ei geryddon, ond yn ceryddu yn unig am ei fod yn caru; yn gadael i gymmylau a thywyllwch ar brydiau gau am danom, ond yn unig fel y bo i ni ymofyn pa le y darfu i ni wyro oddiar lwybr dyledswydd, lle mae goleuni ei wynebpryd ef bob amser yn ei gwneyd hi yn ganolddydd hyfryd.

"Cofia dy Greawdwr." Gyda'r olwg iawn am dano, pa mor bleserus fydd y myfyrdod am dano! Nid ei gofio gyda dychryn, gyda rhyw wrthwynebrwydd. Nid fel bwbach (os goddefir yr ymadrodd), i'ch brawychu rhag y drwg. O syndod, os rhaid i chwi feddwl am eich Creawdwr a'ch Cynnaliwr da yn unig gydag arswyd—fel am ryw fod galluog ag y mae ei ddwrn bob amser wedi ei godi i'ch taro, ei wedd yn gwisgo gwg a wna i'ch cnawd wingo pan feddyliwch am dani. Chwi welwch blant ambell waith â chymmaint o ofn y doctor arnynt, fel yr oedd ei enw yn ddychryn i'w clustiau, a'r olwg arno yn eu gyru i lechu i'r cornel mwyaf tywyll yn y tŷ. Ai yn gyssylltiedig ag ofnau a gwasgfeuon meddwl yn unig y crybwyllir ef? Mae ofnau a gwasgfeuon yn iawn, o leiaf i'w dysgwyl pan fo'r meddwl neu'r ymddygiad wedi bodoli; ond nid dyma'r ffordd briodol, naturiol, i ddyn edrych ar ei Dad Perffaith. Mae rhywbeth o le pan y mae hi fel hyn. Mae

i ofn boenedigaeth; ond ni ddylai fod poen yn nglyn â'n gwaith yn meddwl am Dduw. Y fath gyssur i blentyn—i fachgen da—yw rhodio yn nghwmni, cael aros yn mhresenoldeb, mwynhau o garedigrwydd, edrych yn ngwyneb llon, tad naturiol doeth a rhinweddol. Nis gall nad felly y teimlech chwithau, os yn ddynion ieuainc da, yn ymgeisio o hyd at fod yn well, yn y meddwl am eich Tad Nefol—yr olwg arno, y gymdeithas ag ef. Iechyd yw crefydd—ystad naturiol dyn, yn gwneyd ei waith, yn ymdrechu â'i demtasiynau, yn ymgais am ragoroldeb uwch, yn mwynhau cyssuron penaf y fuchedd hon. Ceisiwch gael eich crefydd, nid yn wasgfeuon ac ocheneidiau, a chwynfanau, ond trwy gadw yn eich lle, trwy wyliadwriaeth a gweddi; gadewch i'ch crefydd fod yn help, yn gyssur—y gwynfyd uwchaf i chwi; yn ysgafnhau eich calon, yn taenu gwawr o sirioldeb nefol ar eich gwynebpryd, yn gwneyd i chwi deimlo fod genych y Cyfaill goreu, y Tad ffyddlonaf, bob amser i nesu ato.

3. Unwaith etto, tra yn edrych ar bob dynol ragoriaeth ond fel cysgod gwan o'r perffeithrwydd digwmmwl yn Nuw, mi a ddymunwn eich annog i wneyd y *defnydd goreu o bob help dynol a gewch i ffurfio cymmeriad, ac arwain bywyd crefyddol.* Ni allwch chwi na minau byth fod yn ddigon diolchgar am y cynnorthwyon anmhrisiadwy i fywyd crefyddol ag sydd i'w cael gan ein brodyr a'n chwiorydd a fuont, mewn amser a aeth heibio, yn enwog am eu rhinwedd a'u duwioldeb. Yn yr olwg ar y fath rai, mae'r mwyaf cysglyd a difater, debygwn, ar brydiau yn barod i ymysgwyd, a theimlo'n falch eu bod yn ddynion â'r fath bossiblrwydd yn agored iddynt, yn ol mesur eu gallueedd. Yn nhrefn Rhagluniaeth Duw, mae'r mawr i helpu'r bach, y cryf y gwan; nid i gario'r gwan ar ei ysgwyddau, ond i roi cyfarwyddyd a chalondid iddo. Gwnewch yn fawr o rai rhagorol y ddaear—saint yr oesau, y rhai y mae eu coffadwriaeth yn fendigedig o genedlaeth i genedlaeth; y rhai sydd wedi teimlo dwysder, ac wedi deall, i ryw raddau pell, ystyr ac amcan y bywyd presenol; y rhai a ymladdasant yn wrol, ac o'r diwedd, yn llwyddiannus, yn gyntaf â'r drwg a gynnygiai ei hun iddynt hwy eu hunain, ac yna yn wrol, ac nid heb lawer o lwyddiant â drygioni eu hoes a'u gwlad—saif y rhai hyn ar binaclau uchel, a chyda llais awdurdodol, etto brawdol a llawn o gydymdeimlad, dywedant wrth bob un o honoch, "Dring, dring i fyny yma." Mae i bob un ei ddawn ei hun. Try un allan yn ddiwygiwr mewn duwinyddiaeth; nithia lawer o us golygus tybiau hen a thraddodiadol dros y garthen; bwrw i lawr aml i gred, anrhydeddus gan fwswm amser, a gesyd well yn ei lle. Rhydd ysgogiad i'r byd yn mlaen yn nghyfeiriad y gwirionedd pur. Felly oedd Moses, Wycliffe, Luther, Priestley, Roberts o Lanbrynmair. Un arall a rydd enghraifft uchel i ni o fywyd pur, dyrchafedig, gwahanedig oddiwrth ddrwg arferion ei oes; o gymmundeb agos â Duw; rhodia gyda Duw. Dengys i ni y modd y mae i ni wneyd yn sylweddol i ni ein hunain felusderau a chyssuron, cyflwr o ymgyflwyniad i'n dyledswydd, ac i gymdeithas agos â ffynnonell pob perffeithrwydd, ac awdwr pob dyddanwch. Dengys i ni fel y gall crefydd gyssuro a chynnal yn mhob sefyllfa, a gwneyd ei pherchenog

yn fwy nâ choncwerwr ar amheuon, trallodau, a phrofedigaethau. Rhai felly oedd Dafydd, Isaiah, Ioan, Fenelon, a llawer ereill, heb son am yr Hwn a ddywedai, "Myfi a'r Tad, un ydym." Ereill drachefn, heb fod yn enwog fel diwygwyr mewn duwinyddiaeth, nac ychwaith fel esiamplau o dduwioldeb yn ei chymmundeb agosaf â'r Ysbryd Mawr, a fuont enwog fel yn gyfranog i raddau o ysbryd y ddau ddosparth, yn gosod ar droed welliadau a ddygwyd i mewn gan saint o athrylith mwy, yn cario diwygiadau pwysig yn mlaen mewn eglwys a gwlad, yn ddynion o uniondeb, o onestrwydd, o sancteiddrwydd, megys Iago, Cranmer, Latimer, Penry, Wesley, Whitfield, a llawer ereill. Am y rhai hyn, goreuon y ddaear, byddwch ddiolchgar, a holwch help oddiwrthynt ar yrfa bywyd. Nid yn ofer y llafuriodd yr holl rai hyn a miloedd ereill, rhai nad yw eu henwau yn adnabyddus i ni; i ryw fesur cawsom ni oll fyned i mewn i'w llafur hwy, ac y mae eu bywydau yn gwneyd i fyny ystorfa o help o'r mwyaf angenrheidiol a gwerthfawr i ni yn awr. Ymgyfarwyddwch â dynion da pob oes a gwlad ag y mae eu hanes wedi eich cyrhaedd; dysgwch rywbeth gan bob un; gadewch iddynt fod yn gynnifer o athrawon i'ch helpu i fywyd crefyddol mwy dysglaer. Meddai hen Ficer Llanymddyfri, "Derbyn berl o enau llyffant." Dysgwch chwi gan bawb. Na ddigiwch wrth bagan os bydd gwers ganddo i'w dysgu i chwi mewn profiad crefyddol; ie, derbyniwch hi fel pe buasai Moses neu Paul yn llefaru—paham lai? Maent yn llefaru oll trwy yr un ysbryd—Ysbrydoliaeth yr Arglwydd sy'n peru deall mewn du a gwyn, Iuddew a chenedl-ddyn. "Yr wyf yn deall mewn gwirionedd nad yw Duw dderbyniwr wyneb, ond yn mhob cenedl y neb sydd yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder sy gymmeradwy ganddo Ef." Pawb sy wedi byw, wedi llefaru, wedi ysgrifenu, mae addysg lawer i ni oddiwrthynt. O pa gymmaint o addysg! Mynwch oddiwrthynt bob *help* i'r bywyd crefyddol ag a alloch. Yr hyn yr aeth ereill—hen ac ieuanc—drwyddo, pa mor werthfawr yw i ni! Nid oes modd i mi, mae fy mhrofedigaeth I yn wahanol i eiddo pawb ereill, nid oes modd i mi i ymwadu â'r cnawd, ei wyniau, a'i chwantau, a byw yn sobr, &c. Oes, gwel y modd y gwnaeth ereill. Cadwasant eu gwisgoedd yn wynion—ymddidolasant o'r llygredigaeth o amgylch iddynt, a daethant i fod yn demlau glân i'r Duw Hollalluog. Mae gan ddynion uwch nâ ni ryw ddylanwad rhyfedd. Maent fel yr angel, yn y stori, a gynhyrfai'r llyn gynt. Y demtasiwn fawr i chwi yw ymfoddloni ar fyw fel ereill o amgylch i chwi, a'r rhan fwyaf o'r cyfryw heb un nod uchel, nid o fuchedd o'r fath mwyaf dyrchafedig—suddo i lawr i'w lefel a dweyd, "Rhaid i ni fod fel pobl ieuainc o'n cylch"—nid yn waeth ac nid rhyw lawer yn well—suddo i ryw lefel farw o glaearineb a difaterwch. Na wnewch hyn: codwch eich golwg i fyny at y saint a rhai rhagorol y ddaear, er mwyn i gychwyniad newydd gael ei roddi i'ch ymdrechion a'ch ymgeision. Personau wedi eu hysprydoli y tuhwnt i'r cyffredin, apostolion, merthyron, a saint yr oesau—dyma'r rhai a'ch helpant fwyaf, a'ch cadwant rhag suddo i lefel oer ac isel o gnawdoldeb neu o fydolrwydd. Fel y gwnant yn y trefydd—nid yw dwfr y dref ond cronfeydd budron, a

llawer o fudreddi yn gweithio ei ffordd iddo; ond ant filldiroedd o ffordd—cant afael ar ryw ffynnon gref, loew, neu ffrwd iachus, ac arweiniant hi i lawr i ddisychedu'r dref. Dyna sy raid i chwithau—i ni oll wneyd—hol llawer o'r nerth oddiwrth y rhai a safant yn uchel, wedi cadw eu diniweidrwydd a'u sancteiddrwydd yn ngwyneb treialon chwerwon, ac wedi gofalu am ewyllys Duw o flaen pob peth. A oes eisieu i ni ddweyd yma pa le y cawn ein prif help, yn yr Hwn—y tirionaf a'r hawddgaraf, y puraf a'r duwiolaf, o blant gwragedd—yr Hwn a aeth o amgylch gan wneuthur daioni, ar bob awr mewn cymmundeb â ffynnonell ddihyspydd pob gwir Ysprydoliaeth. Edrychwch, gan hyny, ar Iesu, pen tywysog a pherffeithydd ein ffydd. Cofiwch ei demtio yn mhob peth yr un ffunud â ninau. Cofiwch iddo fod yn ieuanc fel chwithau, ond ni lygrwyd, ni orchfygwyd Ef gan y drwg o amgylch iddo.

LLITH VI.

Preg. xii. 1. 2 *Cor. vi.* 18.

Darfu i mi, y tro diweddaf, eich anerch yn nghylch eich dyledswyddau crefyddol. Mae genyf ychydig bethau yn mhellach i'w dweyd ar y pen hwn cyn eich gadael. Yn fy anerchiad diweddaf, gelwais arnoch i ddwys ystyried fod Duw wedi eich donio â chymhwysderau, ac, o ganlyniad, fod i chwi eich dyledswyddau crefyddol. Fel y mae wedi eich donio â chymhwysderau fel bodau deallol ac fel bodau cymdeithasol, a'r cymhwysderau, y naill fel y llall, yn eich rhwymo i ddyledswyddau cyfatebol, ac yn cynnwys cyssur a dedwyddwch yn y cyflawniad o honynt, felly hefyd darfu iddo eich gwneyd ar gyfer crefydd, gan drefnu, yn nghyfansoddiad eich natur, fod y bywyd crefyddol y bywyd uwchaf possibl i chwi ei arwain; cyssuron crefydd y penaf a'r puraf o bob cyssuron y gellwch eu mwynhau. Annogais chwi i ystyried y pwys o gydymffurfio â deddfau daionus eich natur yn y peth hwn, a threfnu eich bywyd gyda golwg ar Dduw, ac ymofyniad parchus a gostyngedig am ei gymdeithas. Gwesgais arnoch pa mor angenrheidiol yw i chwi feithrin syniadau addas am dano, fel ag i beidio beichio eich hunain â meddyliau am dano a dueddant i lethu a gwanychu yn hytrach nâ meithrin a chryfhau y bywyd crefyddol—i edrych arno yn mhob dim fel y Bod goreu, y Tad perffaith, fel na fyddo modd lai nag i chwi roddi eich pwys arno, eich ymddiriedaeth ddiysgog ynddo, a gobeithio ynddo bob amser. Ceisiais ddangos i chwi y pwys o ddefnyddio pob cymhorth allanol i chwi eich hunain—y cymhorth a roddir i chwi gan saint Duw, y rhai y llanwyd eu bywyd â phrofiad o werth a godidogrwydd crefydd o dan yr amgylchiadau mwyaf celyd—er eich hwylusu ar eich gyrfa, a'ch nerthu i wrthwynebu drwg. Dygais ger eich bron fel y mae dynion uwch nâ ni yn help i ni, eu goleuni yn dysglaerio ar ein llwybrau, eu llais yn ein cyfarch, "Dringwch i fyny yma;" eu hesiamplau yn ein cyffroi ni i droi am oleuni a chyssur

i'r ffynnonell ddihyspydd o'r hon y cyflawnwyd eu diffygion hwy. Yn neillduol, yr ydych i gofio yr hwn, "yn gymmaint â dyoddef o hono, a chael ei demtio, a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir;" yr Iesu hawddgar a da, yr hwn a saif allan yn gynllun i'r byd o'r hyn all crefydd bur ei wneyd; yr hwn, trwy iddo gadw at nod ei fywyd gyda ffyddlondeb diwyro, oedd yn mwynhau cymdeithas ddigwmmwl a difwlch â Thad ein hysprydoedd, yr Hwn sydd yn agos at bawb a neshant ato, yr Hwn a gerir fwyaf gan y rhai a'i hadwaenant oreu. Nac esgeuluswch er dim ymofyn â Christ am y Tad: dengys efe y Tad i chwi yn ngoludoedd ei gariad, yn mhurdeb ei gyfiawnder, yn manylder ei sancteiddrwydd. Mae yn arwain at y Tad; ac o bawb, pwy sydd â mwy o eisieu arweinydd da nâ chwi, fel pobl ieuainc?

Etto, am ychydig amser, gadewch i mi yn mhellach i'ch annog—

4. I gadw *mynwes bur*—"asgre lân." Rhaid i grefydd, mae crefydd yn golygu cydgordiad, trefn, heddwch, yn y dyn oddifewn. Ceisiwch ddyfod yn fwy a mwy sanctaidd o hyd. Byw yn sanctaidd; dyna yw hyny, byw yn gysson â chwi eich hunain—byw yn ol ac i fyny â'r wybodaeth a rodded i chwi. "Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gwnewch hwynt." Mynwch olwg glir ar hyn—na flagura crefydd ddim os na fydd yr ymgais hon am gyd-darawiad a chyssondeb tufewnol yn cael ei dwyn yn mlaen gyda phenderfyniad a dyfalbarhad, nes y byddoch yn myned rhagoch o goncwest i goncwest, o rinwedd i rinwedd, o dangnefedd i dangnefedd. Gwyliwch yn erbyn gwrthddywediadau tufewnol; clustfeiniwch yn ddifrifol ar lais cydwybod. Ymswynwch rhag ymddwyn yn anmharchus a chreulawn ati. Cymdeithaswch â hi, a bydded wiw genych yn fynych ymofyn am ei thystiolaeth. Ac O! nac ewch i gellwair a rhith-chwareu â hi, gan freuddwydio mai bach o beth yw rhedeg i'w herbyn ac anufuddhau. Os gwnewch hyn, chwi döwch eich hunain, yn ngolwg eich hunain, â gwaradwydd a chywilydd; aiff hunan-barch ar goll; ewch yn llwfr ac yn wasaidd; diflana pob gwroldeb; cewch deimlo eich gwir ddyndod wedi ei anafu; aiff tôn y bywyd yn isel; dodwch eich hunain ar lithrigfa agored i bob temtasiwn, yn ysglyfaeth barod i'r naill bechod neu'r llall. Ymogelwch rhag

"Rhoi'ch serchiadau'n rhydd i'r gwŷn
Sy'n ymgais â mawreddau dyn."

"Nid oes cyfiawn ac ni phecha." Nac oes, ond peth arall yw aros mewn pechod, dodi i fyny gydag ef, ymgyfarwyddo â'i gymmydogaeth, nes yr elo drwg yn llai o ddrwg yn eich golwg o dipyn i beth. Cymdeithas â Duw yw nod uwchaf dyn; ond "os dywedwn fod i ni gymdeithas ag Ef, a rhodio yn y tywyllwch, celwyddog ydym, ac nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd." "Eithr os rhodiwn yn y goleuni megys y mae efe yn y goleuni, y mae ini gymdeithas â'n gilydd." "Pob un a aned o Dduw"—lle mae gwir grefydd wedi bwrw ei gwreiddiau yn mhell i'r tir, a dyfod yn fater bywyd—"nid yw yn gwneuthur pechod"—gydag hyfrydwch ac yn arferol—"oblegyd y mae ei had ef yn aros ynddo ef, ac ni all efe bechu am ei eni ef o Dduw." Peryglus iawn yw

i chwi yn awr ymdroi yn hualau arferion drwg, maglu eich hunain ynddynt, a thrwy hyn fogi yr yspryd crefyddol. Mae pob cnawdol chwant, yn y boddhad annghymmedrol o hono, yn rhyfela yn erbyn yr enaid—yn erbyn cynnydd crefydd yn yr enaid. Gwyliwch, gan hyny, yn erbyn yr hyn sy ddaearol, anianol, cythreulig; gwyliwch rhag gwerthu eich hunain i'r drwg. Llymhau ac yspeilio a gwanychu eich natur fydd hyn; gwastraffu breintiau godidocaf bywyd fyddwch wrth wneyd hyn; myned rhagoch yn syth i ddinystr a methdaliad moesol; afradu y nerth sy fwyaf rhaid i chwi wrtho. Teflwch eich golwg am funyd yn mlaen—pa addewid, pa barotoad sy genych ar gyfer blynyddau dyfodol, ac edrychwch ar eich ymddygiad yn y goleu hwn. Gosod i lawr sail dda i adeiladu arni yn y dyfodol ddylid yn adeg ieuenctid. Dyna a gydnabyddir wrth ddanfon y bachgen i'r ysgol—wrth ei ddwyn i fyny gyda rhyw alwedigaeth neu ei ddysgu i drin y ddaear—ei barotoi ar gyfer y dyfodol. Yn grefyddol yr un modd y dylai fod—dwyn allan yr hyn sy'n grefyddol mewn dyn, ei feithrin yn ofalus, ei fagu nes y cryfhao gyda chryfder ac y tyfo gyda thyfiant y corff. Dyma barotoad—dyma etifeddiaeth odidog i ddyn ieuanc fyddai hyn—gwell nâ miloedd o aur melyn, gwell nâ chrefft, a gwell nag hyd y nod gwybodaeth o bob math er gwerthfawroced hi. Chwi fyddwch yn myned allan drosoch eich hunain—"yn dechreu byd," fel y dywedir—yn fuan: adeg helbulus, ond llawn o gyssur a gobaith yn yr holl helbul os bydd pethau o dde. A anturiwch chwi i ddechreu eich byd gan annghofio crefydd—heb ei hystyried hi yn werth eich sylw yn awr i barotoi ar gyfer meddiannu y golud didraul arosol—yr etifeddiaeth hon nad yw wrth ei defnyddio yn lleihau dim, ond ennill a chrynhoi ati o hyd? A wnewch chwi ymroi i fod yn gyfoethog atoch eich hunain ond tlodion at Dduw? Na, na; nid felly, anwyl gyfeillion: nid hau i'r cnawd, ond i'r yspryd, er cael medi gwynfyd a gorfoledd ar bob cam. Cadwch fynwes bur, ynte. Gwnewch eich cyfrifon a'ch cydwybod i fyny yn ofalus. Cadwch hi yn oleu rhyngoch a gorsedd y Cariad Tragwyddol. Mae hyn yn fy arwain i ddweyd gair yn fwy neillduol ar

5. Y pwys i chwi beidio ymfoddloni ar ddim llai nâ phrofiad *personol tufewnol o grefydd.* Deallwch, heb fodd camsynied y peth, mai nid rhywbeth ar flaen y tafod yw y grefydd yr wyf yn son am dani. Yn yr enaid y mae ei chartref; os yn bodoli, yno y bodola. Nid yn y *Common Prayer*, nid yn y *Catechism*, nid yn yr esponiad hwn a'r esponiad arall, nid yn y Beibl ei hun—ynoch chwi yn unigol, yn bersonol, yn dufewnol, y rhaid iddi fod. Holwch bob help a alloch i'w meithrin o bob man.

Nid peth i'w ddysgwyl mal o bell
Yw teyrnas Dduw—mae'n llawer gwell;
Llwyr agos ac o'n mewn y mae,
Mur Dwyfawl nerth am dani'n gae;
Nid yma mae, nid acw bydd,
Nid pell o le, nid pell o ddydd;
O'n mewn ei cawn yn gariad byw
At wir ddaioni o bob rhyw.

Yn y gydwybod y mae hon
Yn deimlad nefol dan y fron;
Mewn yspryd heddgar trugar-bwyll,
Y mae gwir deyrnas Duw'n ddidwyll.

Mi ddymunwn siarad fel na fo i chwi fy nghamddeall. Pan yn dweyd nad yw eich crefydd i fod yn y Beibl, fy meddwl yw, mai hyny o grefydd gan bob un—cymmaint ag a wnelo yn wir feddiant iddo ei hun trwy ymdrech, gwyliadwriaeth, penderfyniad, a gweddi bersonol. Mae genym yn y Beibl hanes am ddynion crefyddol, profiadau dynion crefyddol—rhai yn rhodio ar uchelfanau gwynfyd crefyddol—y cynnorthwyon goreu i ni, ond dim ond cynnorthwyon—dim ond cyfarwyddiadau wedi'r cwbl. I gymmeryd yr enghraifft bwysicaf o'r cwbl, meddyliwch am y Gwaredwr ei hun, i'r hwn y rhoddwyd Yspryd Duw nid wrth fesur. Mae genym yr hanes am dano yn y Testament Newydd. Mae yr hanes hon i'w darllen, i'w phwyso, a'i barnu fel pob hanes arall. I hanesiaeth yr ym yn ddyledus am a wyddom am yr hwn y mae gogoniant y Tad yn llewyrchu yn ei wynebpryd. Ond wedi'r cwbl, gallwn dderbyn yr hanes am dano, bob sillaf o honi, ei chredu yn hanesyddol, ac etto, bod yn mhell o fod yn deilwng ddysgyblion iddo ef a phlant ein Tad—yn mhell o fod yn feddiannol ar grefydd fel gallu ac fel profiad bywiol yn ein calonau ein hunain. Nid derbyniad hanesyddol o hanes yr Iesu a all byth lanw'r enaid â phrofiadau crefyddol, mwy nâ derbyniad felly o unrhyw hanes yn y byd. Pa beth ynte? Ein gwaith ni yw cymmeryd ein dysgu gan yr Iesu, ein tywys ganddo i roi holl bwys ein gobaith ar y Tad, i adeiladu ar y gwirioneddau tragwyddol ac annghyfnewidiol a eglurodd efe i'r byd. Mae ei hanes ef yn rhoi i ni gynllun o wir fywyd crefyddol; os bydd i hyn ein cyffroi ni i ymofyn am yr un agwedd meddwl a'r un ymddygiad nefol, yna gwna i ni'r gwasanaeth mwyaf. Ond ni wnaiff gorphwys ar y ffaith fod Iesu yn anwyl fel y Tad, credu fod ganddo ewyllys y Tad i'w hamlygu, ein dwyn ninau i fod yn anwyl blant ein Tad, ac i beru fod ewyllys y Tad yn cael ei chyflawnu ynom, heb ymdrech personol, heb i ni'n bersonol godi i feddiant o'r un profiadau gwerthfawr. Os ydwyf wedi llwyddo i wneyd fy meddwl yn amlwg, fe fyddwch, debygaf, ar unwaith yn cydsynio fod addysg Crist yn suddo i'r galon, ac yno'n dwyn ffrwyth, yn trawsffurfio'n bywydau rhy fydol a daearol ni i'r un ffurf â'i fywyd nefol gogoneddus ef. Dyna sy'n lleshau ein bod ni yn teimlo trwyddo leferydd Duw yn anerch ac yn dihuno ein cydwybodau a'n serchiadau ni; ein bod ni, trwy gydymdeimlad ag ef, yn taflu'n mynwesau yn agored i'r un dylanwadau Dwyfol; ein bod, trwy'r un gallu ag oedd yn nerthol weithredu ynddo ef, yn cael ein hadgenedlu i'r gobaith anniflanedig ag sy'n canolbwyntio yn, ac yn gorphwys ar y Doethineb, y Daioni, a'r Cariad perffaith. Yn iaith y Testament Newydd, rhaid i ni wisgo am danom yr Arglwydd Iesu Grist — i "Grist gael ei ffurfio yn ein calonau." Nid digon i ni gredu am dano, rhaid i ni gredu ynddo fel un yn datguddio'r Tad i ni; fel un yn dwyn y Tad fel yn agosach atom—yn dadlenu ei briodoleddau gogoneddus.

Anwyl gyfeillion, mynwch afael ar grefydd fel trysor caffaeliad i chwi eich hunain; mae i fod rhyngoch chwi a'r Tad Mawr; a pha beth bynag a dueddo i'ch cadw oddiwrtho Ef, yn hytrach nag i'ch arwain ato, gwybyddwch mai rhwystr ac nid help fydd hyn. Mae bod yn grefyddol yn rhywbeth annrhaethol mwy nâ rhoi eich presenoldeb yn yr addoliad, nâ chyfranogi o Swpper yr Arglwydd, dyfod i'r Ysgol Sul, er cystal yw'r pethau hyn. Mae crefydd yn golygu llawer yn rhagor nâ pheidio bod yn waeth nâ rhywrai ereill, a chydymffurfio â rhyw *standard* a fo mewn bri yn yr oes a'r wlad ar y pryd. Mae crefydd yn rhywbeth ag sy'n myned at wraidd y bywyd, ac yn effeithio hwnw. Mae hi'n allu ac yn ddylanwad ag sy'n gwneyd pob bywyd unigol yn beraidd, yn hyfryd, yn hardd. Ei gorsedd hi yw'r galon—mae hi'n gwneyd pob calon yn ganolbwynt bychan i gymdeithas â'r Cariad a'r Purdeb Anfeidrol; mae hi'n dyrchafu tôn ac yn dodi graen newydd ar bob bywyd unigol. Mae hi'n digarregu, yn llyfnhau pob cymmeriad ar ei ben ei hun, ac yn bwrw o'i hâd, a hwnw yn dwyn ffrwyth, peth ar ei driugeinfed, peth ar ei ganfed.

6. *Mae cynnydd yn y bywyd crefyddol.* Nid oes, ar ryw olwg, angen dweyd hyn—mae bywyd ynddo 'i hun yn golygu cynnydd. Da chwi, holwch eich hunain, a phwyswch eich hunain, a oes cynnydd. Gyda ieuenctid, mae pob peth i gynnyddu—y corff, gwybodaeth, defnyddioldeb cymdeithasol, adnabyddiaeth o'r byd. Crefydd hefyd, os nad oes cynnydd, arwydd o ddiffyg bywyd yw. Anian a blys dyn ieuanc yw cynnyddu—y crefftwr, y ffermwr, y masnachwr, y myfyriwr, y pregethwr ieuanc—dysgwylia gynnydd ynddo ei hun, a dysgwylia ereill hyny oddiwrtho. Sut y darllenwn am yr Iesu? "Efe a gynnyddodd mewn doethineb a chorffolaeth, a gras Duw oedd arno Ef." Cynnyddai Ef fel y gwelir y blodau a'r planigion yn cynnyddu yn awr yn y tymhor hwn o'r flwyddyn. Yn y bywyd crefyddol, hi a fydd yn Auaf ambell waith, pan y bydd yr oerfel, y rhew, a'r eira, yn tymheru'r priddellau ar gyfer ffrwythlondeb dyfodol. Ond nid Gauaf parhaus fydd hi. O na, daw'r Gwanwyn tyner i bob pren, a rhinwedd i fwrw ei blagur irion, ac i flodeuo'n hardd; daw'r Haf pan y bydd y ffrwythau yn llanw ac yn aeddfedu, a gwrid swynol aeddfedrwydd yn lledu dros y ffrwyth; a daw'r Hydref i gasglu'r ffrwythau mewn rhyw ffordd neu gilydd yn ol y Rhagluniaeth fawr. Ond cylchyniad o dymhorau ffrwythlawn yw'r bywyd crefyddol. Os daw diffrwythder i wenu, arwydd yw fod y bywyd yn cilio ac ar ddianc.

A oes rhyw ffordd i adnabod ac i fesur y cynnydd? O oes. Er mai oddifewn y mae magwrfa a chartref crefydd, hi a dŷr allan ac a ddengys lle y mae. Mae'r fuchedd yn dod yn fwy hardd, mwy cyflawn, mwy dyrchafedig, a mwy gogoneddus. Gwirionedd yn dod yn fwy anwyl, trugaredd yn fwy arferol, serch a chariad yn gwisgo gwedd fwy blodeuog, ewyllys da yn taenu ei breichiai'n mhellach, yspryd o heddwch a thangnefedd yn perarogli'r holl gymmydogaeth, hunan-ymwadiad yn cael gafael gryfach, hunan-aberthiad i achos cyfiawnder a gwirionedd yn cyrhaedd graddau uwch; blinderau, trallodau, a chystuddiau, yn cael eu derbyn gyda mwy o amynedd a diolchgarwch; y gorfoledd

yn chwyddo yn llawnach, llawnach. Bywyd tragwyddol yw'r bywyd crefyddol. Nid yw gofalon y byd yn ei fogi; nid yw teganau, llwgrwobrwyon, anrhydedd, a phleser yn ei wywo; nid yw afiechyd y corff, nid yw methiant a henaint ei hun yn ei yspeilio o'i nerth a'i ogoniant. Pan y mae'r corff yn dadfeilio, galluoedd y meddwl yn llesghau, mae gafael yr enaid yn myned yn dynach, tynach, am y Cariad Dwyfol. Mae'r bywyd hwn yn fuddugoliaethus ar angeu ei hun, ac yn llenwi'r fynwes â'r sicrwydd cryfaf fod byd ar ol hwn, adnabyddiaeth bellach o Dduw yn gyrhaeddadwy, maes newydd i ddyledswydd yn agored, buddugoliaethau newyddion i'w hennill, gwynfydau ychwanegol i'w hetifeddu. Anwyl gyfeillion, nac ymfoddlonwch heb gael arwyddion cynnydd ynoch eich hunain. Mae gwahoddiadau cariadlawn yn eich cymhell, mae lleisiau fyrdd, o Enoch a rodiodd gyda Duw, hyd at y sant diweddaf a adawodd y ddaear, yn dweyd, "Dring rhagot." Mae eich natur eich hun ag ynddi adnoddau dibendraw o fywyd crefyddol heb eu dadlenu. Mae profiadau bywyd yn rhoi cyfleusderau newyddion i ryw amlygiad newydd a rhagorach ar bob cam. Mae breintiau eich oes a'ch gwlad yn edliw i chwi na raid i chwi eistedd yn mro tywyllwch a chysgod angeu yr hen genedloedd, ond rhodio yn ngoleuni clirach y newyddion da, ac esgyn yn nes, nes, i'r man y saif proffwydi a doethion yr oesau arno. Codwch, a dangoswch chwi nad yw bydolrwydd wedi meddiannu gorsedd calon y wlad a'r gymmydogaeth, nad stori a hanes yw crefydd yn mhlith dynion—fod cymdeithas â'r Anweladwy mor sylweddol yn awr ag yn nyddiau yr apostolion, fod y llais dystaw main i'w glywed megys cynt, ac nad yw pawb etto yn foddlawn plygu'r lin i bleser na chyfoeth na rhodres wag o un rhyw, ond fod cariad at Dduw a'i wirionedd, at rinwedd a'i melusderau, at grefydd a'i gwynfydau, yn cynneu yn eu calonau.

Gadewch i mi, cyn terfynu, i ddwyn ar gof i chwi y tymhorau dyfodol o'ch oes ag y gobeithiaf y cewch eu gweled, a'ch annog i gydnabod yn awr wir werth crefydd ar gyfer eich cymhwyso i gwrdd â throion y bywyd cyfnewidiol hwn. Os carech wneyd crefydd yn rhan ac yn etifeddiaeth i chwi, yna doed trallod, doed cystudd a dyoddefaint o bob rhyw, bydd genych yr un peth angenrheidiol, mwy gwerthfawr nâ dim a fedd y byd.

Yr wyf yn anerch llawer fyddant yn chwareu eu rhan ar y ddaear pan fyddo y llais hwn wedi tewi. Cofiwch hyn: mai'r doethineb penaf yw adnabod Duw; mai'r gwynfyd puraf yw'r mwynhad o'i gymdeithas Ef; mai'r parotoad goreu fydd i chwi adael i grefydd bur i drefnu a llywodraethu eich holl fywyd. Daw gofidiau, a threialon chwerwon; fe lwyda ac fe rycha llawer grudd hawddgar sydd o'm blaen yn awr yn ymdrafodaeth helbulon bywyd; ond y mae un peth a geidw'r yspryd heb anobeithio, y galon heb ddiffygio, a wisg bob trallod megys mewn gwisg angel wedi ei ddanfon i'ch profi a'ch cryfhau—y grefydd a rydd bwys ei phen ar fynwes Duw'r cariad, a deimla fod holl ddigonoldeb nefoedd a daear ar ei thu, ac a gwyd eich golwg o ganol pob ffwdan y byd at y Rhagluniaeth na âd fod ar ei phlant eisieu dim daioni yma nac yn y byd tudraw. *Ebrill*, 1864.

ANGLADD YR HEN WR TYLAWD.

Yn dew y cwympa'r llafnau eira nes llanwant freichiau cangau'r coed,
Yr awel ddiddig ymlonydda fel pe rhyw newydd beth ar droed;
Mae'r eira'n gwynu copa'r clochdy fel pe i amlygu ei henaint blin,
A'r gloch yn cnulio er rhybuddio taw i'r amdo daw pob dyn.

Ah! obry yn araf deithio gwelaf lu o anwylaf ffryndiau un
Mewn gwth o ddyddiau, dan law angau chwythodd maes ei olaf ffun;
Yn ei hebryngu i'w hir letty at bryf llwm y gweryd llaith,
A phen plygedig a bron ysig gwna'r ychydig ffryndiau 'u gwaith.

Ni pherthyn mawredd nac anrhydedd, yn ol agwedd falch y byd,
I un o'r dyrfa athrist yma, na'r hwn orwedda'n oer a mud;
Mae'r arch yn arw, nid o dderw, trwsgl yr enw, trwsgl yr oed,
Ond ni wna'r pryfaid ofal damaid ai trwsgl ai telaid yr enw 'roed.

Oedd hen bererin glew a diflin, ond tlawd, er nad cardotyn chwaith,
Yr hwn ga'dd brofi eithaf cyni a thost galedi ar ei daith;
Ond fe roddasai yr oll a feddai i ofal Tad holl ddoniau dyn,
Ac fe weithiodd a'r a allodd dros lesiant lluoedd gyda 'i hun.

Gorfucheddasai rai blynyddau onid un yr oll o'i blant,
Ei ferch ieuengaf hyd yr olaf weinai i'r ffyddlonaf sant;
Hi a'i canlynodd, o lwyr wirfodd, nes gorchuddiodd daear ef,
Ac hidl yr wylai pan feddyliai mwy na chlywa'i dadol lef.

Ychydig ddagrau wlychent ruddiau y llu a safai wrth y bedd,
Ond chwifiai edyn engyl claerwyn fel i amddiffyn milwr hedd;
Gadawyd yno y tlawd i huno, a'i ferch yn wylo uwch ei lwch;
Yn dew y cwympa'r llafnau eira, ac ôd fantella drosto'n drwch.

O'r *Diwygiwr*, Mehefin, 1855. GWILYM MARLES.

DYN.

Duw ydyw Creawdwr pob peth, ond bodau dynol yn unig a allant wybod hyny, ac felly ei ddeall Ef fel ag i feddwl am dano fel eu Tad. Gall bodau creill fod yn brydferth a chryf, yn ddeallus, hyf, a dewr, ond nid oes genym ni yr un rheswm dros gredu fod gan yr un o honynt y meddylddrych lleiaf am Greawdwr, llawer llai fod gan yr un o honynt y teimlad lleiaf o barch neu serch ato Ef. Y mae llawer o honynt yn wir yn dangos amrywiaeth mawr o deimladau yn eu perthynas, neu eu cydgyfeillach â bodau dynol, ar rai prydiau yn dangos y ffyddlondeb mwyaf hynod, serch, ac hunan-ymwadiad; ond ymddengys nad yw y teimladau hyn ddim yn myned yn mhellach nâ dyn neu fodau dynol,

ac ymddengys nad oes ganddynt yr un gallu i fyned tu draw iddynt at Fôd uwch. Y mae yn wahanol gyda ni, fel yr ydym wedi gweled. Y mae hyd y nod gan y graddau iselaf o fodau dynol feddyliau, teimladau, gobeithion, ac ofnau sydd yn eu harwain a'u tueddu i ymgodi o ran eu hyspryd at y Creawdwr Mawr; ac, fel y mae dyn yn myned rhagddo mewn gwybodaeth o gyfreithiau Duw, ac mewn dadblygiad ysprydol, moesol, a meddyliol o'r addolwr, ymddiriedir yn Nuw, perchir, gwasanaethir, a cherir Ef. Gwir yw ein bod yn mhell etto oddiwrth yr amser dedwydd hwnw pan y bydd Duw i gael ei wasanaethu, ei barchu, a'i garu yn berffaith, ac yr ymddiriedir ynddo â pherffaith ymddiriedaeth, oblegyd y mae llawer o feddyliau cul a chreulawn am Dduw yn bodoli etto, hyd y nod mewn gwledydd Crist'nogol; ond, hyd y nod yn bresenol, gall miloedd lawer o addolwyr diolchgar godi eu calonau i fyny ato Ef, a dywedyd, "Ein Tad."

Yr ydym ni, gan hyny, yn blant Duw. Ni fuasai y Bôd grasol a gogoneddus hwn byth yn ein creu ni gyda'r awydd a'r dysgwyliad taer, a'r dymuniad dwys hwn i chwilio am dano, os na fuasai rhyw gadwyn fyw o gydymdeimlad rhwng ei yspryd Ef a'r eiddom ni,—os na fuasai yn bossibl i ni chwilio am dano Ef a'i gael, ac os nad yw wedi penderfynu ein hennill yn y diwedd ato ei hun. Y meddylddrych hwn yw egwyddor ganolog y Grefydd Grist'nogol a gobaith dynoliaeth. Rhyw ddiwrnod, daw bywyd i ymddangos yn llawer mwy prydweddol a gwerthfawr nag yw yn bresenol, a bydd yn foddion i ddyrchafu y teulu dynol uwchlaw ei anobeithion, ei ddarostyngiadau, ei nwydau drwg, a'i ofnau.

Fel plant Duw, y mae yn rhaid fod genym o'n mewn gyrhaeddiadau mawrion er daioni. Yr ydys wedi dweyd ein bod yn *gwbl lygredig*, ac na allwn, o honom ein hunain, feddwl yr un meddwl da na chyflawnu yr un weithred dda. Pe felly byddai, buasai yn hollol anmhossibl i gredu ein bod, mewn un ystyr dda, yn blant i Dduw; oblegyd y mae hyd y nod plant syrthiedig yn blant o hyd, ac y mae yn anhawdd credu y buasai Duw yn creu hil o fodau dynol i fod yn blant iddo heb yr un dyben mewn golwg ganddo ond eu gadael i syrthio yn hollol a thruenus oddiwrtho Ef. Y mae genym, gan hyny, nid y gorphenol i alaru o'i blegyd, ond dyfodol i'w ennill. Plant Duw yn yr ysgol ydym, ac y mae o'n mewn alluoedd mawrion ac annherfynol eu dadblygiad sydd megys yn llafurio, yn gofalu, a'r rhai y bydd i addysg eu datguddio. Beth allwn ddyfod ni all neb ddweyd; ond o herwydd mai plant Duw ydym, y mae genym bob lle i gredu fod y natur ddynol wedi ei thynghedu i gynnyddu i'r fath raddau o wybodaeth, rhinwedd, a dedwyddwch, nad oes genym yr un dychymyg am dano yn bresenol.

Fel plant Duw yr ydym yn awr, a rhaid yw i ni fod dros byth dan ei ofal Ef. Nid yw y dynion doethaf sydd wedi byw erioed wedi gwybod ond ychydig am y bywyd dynol,—pa beth ydyw, o ba le y daeth, ac i ba le y mae yn tueddu. Ni allant weled ond ychydig o'u ffordd o'u blaen yn y byd hwn; ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau y mae eu casgliadau a'u cynlluniau wedi troi allan yn fethiant. Ond y mae cyfreithiau mawrion Duw wedi gweithio eu ffordd yn mlaen, ac y mae

tynghed dynoliaeth wedi cael ei chyflawnu. Gwers oruchel o ymddiried yn y Llywodraethwr Hollalluog ydyw hanes yr hil ddynol. Ac os gwir hyny am y byd hwn, y mae yn sicr o fod yn wir am bob byd arall; ac os Efe yw ein tywysydd yn awr, gallwn ymddiried ynddo i fod yn dywysydd i ni dros byth. Onid meddylddrych gwerthfawr ydyw y meddylddrych hwn? Nid oes achos i ni ofni; bydd i'r Duw a'n gwnaeth ofalu am danom; ein Creawdwr yw a'n cyfaill, ac o herwydd ei fod yn ein caru, ni âd i neb o honom drengu am byth.

Unwaith yn blant iddo, yna ni allwn beidio â bod felly. Bydd ei ddyddordeb ynom ni bob amser yr un, ac ni fydd ein hawl iddo, a'n gobaith ynddo, byth i derfynu. Dichon i ni bechu yn ei erbyn a'i annghofio Ef, ond ei blant Ef fyddwn wedi'r cyfan; ac, fel ein Tad, ni fydd iddo ballu byth â gofalu am danom, a chynllunio gyda golwg ar ein haddysg a'n hadferiad ato ei hun. Y mae llawer plentyn annoeth a drygionus, cyn yn awr, wedi troi ymaith oddiwrth ei dad, ac wedi fforffedu cyssuron melus cartref dedwydd, a myned allan, fel y mab afradlon gynt, i wlad bell; ond ni ddarfu i'r tad ddarfod â bod yn dad, ni ddarfu i'r fam dyner ei chalon ddarfod â bod yn fam, ni ddarfu i'r plentyn ychwaith ddarfod â bod yn blentyn. Felly y mae yn bod, bid sicr, rhwng ein Tad nefol a ninau; ac ar y gwirionedd mawr hwn o ddaioni a thrugaredd Duw y sylfaenwn ein holl obeithion. Gan mai felly y mae, amlwg yw mai ein dyledswydd ydyw ymdrechu bob dydd bod fel plant Duw. Y fath anrhydedd yw hyn! Ond y fath gyfrifoldeb hefyd!

Geilw y Testament Newydd arnom yn barhaus i adael ein bywydau i gydgordio â'r gwirionedd mawr, mai Duw yw ein Tad ni; ac y mae yr appél hon y fwyaf resymol ac o'r pwys mwyaf i ni. Pa beth ddywedem am fab brenin, yr hwn fuasai yn cymdeithasu â dynion isel a llygredig, ac yn diffrwytho ei amser, neu yn treulio allan ei fywyd trwy gyflawnu gweithredoedd brwnt ac aflan? Dywedem nad oedd, ac nad yw, yn deilwng o'i urddas a'i sefyllfa. A pha beth ddylem ni feddwl am y rhai sydd, er yn galw Duw yn Dad, yn byw fel plant damwain a phlant un diwrnod? Ymresymiad mawr a chadarn dros fyw bywyd da a phur, a gosod o flaen y meddwl amcanion goruchel a phur, yw y meddwl mai plant Brenin y Breninoedd ydym.

Yn olaf, meddyliwn pa mor agos y mae hyn yn ein dwyn ni at ein gilydd. Os Duw yw ein Tad, ac os ei blant Ef ydym ni, yna brodyr a chwiorydd ydym ni oll, wedi ein huno â'n gilydd â'r rhwymau mwyaf cyssegredig a pharhaus. Dylai y meddwl hwn, am undeb yr hil, mai un teulu ydyw, fod yn foddion i orchfygu pob eiddigedd cenedlaethol, casineb lleol, ac hunanoldeb personol, a bydd, o bossibl, iddo orchfygu yr oll o'r cyfryw yn y diwedd. Yn yr oesoedd a aethant heibio, ystyriai cenedloedd cyfain eu hunain fel anwyliaid Duw, ond yr oeddynt mor annoeth â meddwl mai eu Duw hwynt yn unig oedd, tra yr edrychai gydag annghymmeradwyaeth a chasineb ar bawb ereill. Nid oedd, gan hyny, ond peth naturiol ddigon i'r bobl hyn gashau eu gelynion, ac i feddwl a chymmeryd yn ganiataol fod Duw yn eu cashau hefyd, a phan oeddynt yn ymladd yn eu herbyn, yr oeddynt nid yn

unig yn galw ar Dduw i'w cynnorthwyo, ond credent yn drwyadl ei fod yn ymladd drostynt. Ac hyd y nod yn y dyddiau presenol ymddengys i ni fod rhai dynion i'w cael fuasent yn gweithredu yn yr un modd, ac yn meddwl hefyd yn yr un modd. Bydd i wybodaeth iawn a phriodol, ac argyhoeddiad dwys o Dadoldeb Duw a brawdoldeb dyn gyfnewid y fath syniad isel a phaganaidd; oblegyd, pa bryd bynag y bydd i yspryd y gwirioneddau hyn fyned i mewn i'r meddwl, a chymmeryd gafael ar y serchiadau a'r ewyllys, daw bywyd yn beth cyssegredig a bendigedig; bydd i'r cymmeriad gael ei buro a'i sancteiddio, a bydd i'r berthynas sydd yn bodoli rhwng y naill a'r llall gael ei melusu, ei chyssegru, a'i chyfoethogi yn y fath fodd ag na fu erioed o'r blaen.

H.

EGLWYS YR HOLL SAINT YN CHICAGO.

Nid yw ein cyfaill caredig a gweithgar, Jenkin Lloyd Jones, o Chicago, nad pwy sydd, ddim yn aros yn yr unfan, ac nid oes perygl felly iddo gasglu mwswgl. Da iawn genym weled fod llwyddiant o hyd yn canlyn ei ymdrechion—llwyddiant gyda phob ymgais newydd. Mae *secret* ei lwyddiant, dybygwn, yn gorphwys yn y ffaith ei fod yn mhob peth yn ceisio ymgyfaddasu at ofynion yr amgylchiadau y mae yn byw ynddynt. Pan yn cymmeryd meddiant o'r newydd, nid yw o angenrheidrwydd yn tori ei gyssylltiad ac yn ymwadu â'r hen. Os yn ceisio am yr uwch a'r gwell yn ei *ideal*, nid yw yn annghofio y graig o'r hon ei naddwyd—nid yw yn rhoddi cic i'r ysgol sydd wedi ei helpu i esgyn. Mae wedi agor addoldy newydd sydd yn cyfuno holl ragoriaethau yr Eglwysi Pabyddol a Phrotestanaidd, a'u cyfleu at angenion y presenol a'r gofynion lleol. Mae ynddo ystafell fawr at amcanion addoliad, ac yn nghysswllt â hyny amryw barlyrau i gwrdd â gofynion gwahanol bwyllgorau, ac uwchben yr oll y mae ty i'r gweinidog, yr hwn sydd i fod yn wastad wrth law at wasanaeth yr eglwys. Bwriedir fod drws yr eglwys, fel eiddo y Pabyddion, yn wastad yn agored. Meddylddrych y gweinidog am eglwys yw, math o eangiad o'r teulu; bwriada fod yr aelodau oll megys aelodau un teulu mawr. Byddwn yn falch i glywed yn awr ac yn y man sut mae yr eglwys yn sylweddoli'r *ideal*.

Manion a Hanesion.

"Yr wyf yn ffaelu ffeindio bara i fy nheulu," ebe crwydryn dioglyd. "Yr wyf finau hefyd," ebe gweithiwr diwyd, "yr wyf yn gorfod gweithio am dano."

Hope not the cure of sin till self is dead,
Forget it in love's service, and the debt
Thou canst not pay, the angels shall forget.
—*Whittier.*

Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol Ysgol Sul Caeronen, yn Wern Cottage, dydd Mercher, Tachwedd y 10fed. Daeth nifer fawr o blant, a rhai mewn oed, i gyfranogi o'r danteithion lluosog. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod rhagorol o adrodd a chanu gan aelodau'r Ysgol Sul. Llywyddwyd gan y Parch. D. Evans, Cribin.

Gofynir yn fynych a ydych yn credu mewn gwerin-lywodraeth. Nis gwn fod dim yn ei herbyn yn y man a'r lle priodol; ond nid wyf yn credu mewn gwerin-lywodraeth trwy chwyldroad (*revolution*). Dylai pob llywodraeth fod yn dyfiant naturiol. Ni fyddai gwerin-lywodraeth trwy ormes yr ychydig ar y lluaws yn dda yn fy ngolwg I. Os yw brenin-lywodraeth i ddarfod yn ein gwlad ni, dylai gael darfod o farwolaeth naturiol, trwy fod y mwyafrif mawr yn gweled fod rhyw ffurf arall o lywodraeth yn well.

Yr oedd y Parch. Edward White, yn ei araeth o flaen y "Congregational Union," yn annog i ddarlleniad mwy cysson a mwy helaeth o'r Beibl; a'r Parch. Charles Williams, o flaen Undeb y Bedyddwyr, yn dyrchafu y "Puritan" fel *model* i ni i'w efelychu. Gwaharddai ddarllen *novels* na chwareugerddi. Yr oedd y *Puritan* yn hen *foy* nobl yn ei ddydd; ond camsyniad fyddai trosglwyddo *Puritan* y 17eg canrif i'r 19eg canrif gyda'i wendidau a'i ragoriaethau. Gadawer i ni gael tyfu.

Er i Galileo gael ei orchfygu gan yr offeiriaid Pabaidd, symmud oedd yr hen ddaear; ac er fod Mr. Gladstone wedi ei droi o'r neilldu gan fwyrif y pleidleisiau, symmud yn y blaen mae y syniad dros *Home Rule*!

Mae program yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llundain, 1887, yn un helaeth. A oes rhai o'n darllenwyr yn myned i anfarwoli eu hunain?

Llwynrhydowen, &c.—Yn unol â phenderfyniad Undeb y Gweinidogion a gyfarfyddodd Awst diweddaf, cychwynodd y Parch. W. James ei *glass* Beiblaidd Hydref y 6ed. Mae wedi cwrdd ryw bump o weithiau yn y gwahanol gapeli, ac mae'r anturiaeth yn ddigon cefnogol hyd yma. Mae cyfartaledd yr *attendance* yn y gwahanol leoedd gyda'u gilydd dros 50. Pwnc y *class* yw, "Hanes tyfiant crefydd yn Israel."

Cynnaliodd Caeronen a Brondeifi eu cyrddau dielchgarwch, eleni, ar y 14eg o Hydref. Gwnawd casgliad yn Nghaeronen at y "B. and F. Unitarian Association" ar yr un dydd.

Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol Ysgol Sul Brondeifi, Llanbedr, dydd Iau, Tachwedd yr 11eg. Yr oedd y ddarpariaeth ar gyfer y plant ac aelodau ereill yr Ysgol Sul ar *scale* pur helaeth. Yr oedd y wledd i'r corff yn llwyddiant perffaith. Yn yr hwyr, cafwyd gwledd ragorol i'r meddwl mewn canu ac adrodd gan aelodau yr Ysgol Sul. Llywyddwyd gan y gweinidog.

Darfu i un o'r bobl fawr, yn garedig iawn, gymmeryd at y gwasanaeth, un Sul, yn eglwys y pentref, ac yr oedd y clerc yn dymuno rhoi *compliment*. "Gwnelai pregethwr mwy canolig y tro i ni, Syr," ebe fe, "pe gwyddem b'le i gael gafael ynddo."

Ei Hynafiaid.—Yr oedd ar Francis I. eisieu dyrchafu un o'r dynion mwyaf dysgedig i un o'r safleoedd uwchaf yn yr eglwys, a gofynodd iddo os oedd o ddisgyniad anrhydeddus. Atebodd yntau, "Yr oedd tri brawd yn arch Noah, ond nis gallaf ddywedyd yn bendant oddiwrth ba un o honynt yr wyf wedi disgyn." Fe gafodd y swydd.

Whitland.—Pregethodd y Parch. T. T., yn ddiweddar, i luaws mawr yn y lle hwn, a gadawodd argraff dda.

Fe ddywedodd rhywun nad oes dim yn newydd dan haul—dim hyd y nod dannedd dodi. Ceir dannedd dodi yn y mwmiod yn yr Aifft, y rhai ydynt wedi eu claddu, dichon, er ys 3,000 o flynyddau.

Mae pob ffurfiau o grefydd yn rhydd ond Eglwys Loegr.—*Y diweddar Barch. W. E. Bennett, M.A. (offeiriad).*

Dichon dyn fod wedi ei ddysgu yn dda yn neddfau iechyd; etto, heb ymarfer corfforol, gall fod ganddo gorff gwan. Gall fod wedi ei lanw â gwybodaeth hyd yr ymyl; etto, heb weithgarwch meddyliol, gall fod ganddo feddwl gwan. Diehon iddo fod yn hyddysg yn y gwahanol ddamcaniaethau yn nghylch gwneuthur yn iawn; ac etto, os yr esgeulusa yr ymarferiad o honynt, gall fod ganddo garacter moesol gwan, heb allu gwrthwynebu temtasiwn, ac heb y gwroldeb moesol i wneuthur ei ddyledswydd. Rhaid i addysg ac ymarfer fyned law-law gyda'u gilydd; rhaid yw i iawn-deimlo a iawn-ymwneyd gadw gam-yn-ngham â iawn wybod, os ydym i gael plentyn ufudd, dyn uniawn, neu genedl uniawn.

Nid yw credoau yn ddibwys. Maent i enaid gwirionedd yr hyn yw y corff dynol i yspryd dyn, yr hyn yw y ffurf allanol i fywyd y blodeuyn. Pob un sydd yn meddu amgyffrediad gwirioneddol, argyhoeddiad sylweddol o wirionedd, rhaid fod ganddo ryw gred; ac nis gellir cymmeryd y gyfryw gred oddiwrth neb arall, yn gyffelyb fel y cymmerwch wisg i'ch corff o ryw siop. Rhaid cyrhaedd y gredo fyw trwy rydd ymarferiad o'r rheswm, a thrwy dyfiant yn y bywyd ysprydol. Rhaid i bob un holi ei hunan, Beth yw gwirionedd? a dyfod i'r cyfryw gasgliadau ag a fyddont yn boddloni ei feddwl ei hunan, ac yn gosod allan ei argyhoeddiadau gonest ei hunan.

Dylai pob Undodwr, pan yn myned i Lundain, dalu ymweliad â Essex Hall, neuadd newydd y "B and F.," yr hwn sydd wedi ei fwriadu yn fan cyfarfod i Undodiaid pob parth.

A allo dyn fe ddylai dyn
O bob math o ddaioni;
A bendith Duw gaiff tra fo byw
Am dda yn ol ei allu;
Er teimlo'n wan, gwnawn bawb ein rhan
Bob dydd nes delo'r terfyn;
Ac hwnt i'r bedd cawn newid gwedd,
A nefoedd Duw i'n derbyn.

Yr wyf, weithiau, yn cymharu'r trallodau y gorfyddir ni i fyned trwyddynt yn nghwrs blwyddyn i fwndel mawr o ffagodau, llawer rhy drwm i ni i'w godi. Ond nid yw Duw yn gofyn genym i'w cario i gyd ar unwaith. Y mae o'i fawr drugaredd yn rhyddhau'r bwndel, ac yn rhoddi ini yn gyntaf un wialen, yr hon yr ydym i'w chario heddyw, ac yna un arall, yr hon ydym i'w chario yfory, &c. Gallem wneuthur hyny yn rhwydd, pe cymmerem yn unig ond baich pennodedig pob dydd yn ei ddydd; ond yr ydym ni yn dewis yn hytrach i gynnyddu ein trallod, trwy gario baich ddoe heddyw etto, a chymmeryd baich yfory arnom cyn y byddo galw arnom i'w ddwyn.—*John Newton.*

GWIR GARIAD.

Rhagorol yw gwir gariad—gwâr enaid
Gwirionedd ein Ceidwad;
Yn ol deddf y Dwyfol Dad,—i bob dyn
Efe a estyn ei gais yn wastad.
—*D. W. Davies, Trebannos.*

PRIODASAU.

Tachwedd y 12fed, yn swyddfa y cofrestrydd, Llanbedr, Mr. Thomas Jones, Pantglas, ac Elizabeth Jones, Pistilleinon, Cellan.

Tachwedd y 13eg, yn Nghaeronen, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. William Davies, Llwynieir, Llanbedr, a Miss Jane Jones, Trebanau, Cellan.

Marwgofion.

Medi 27ain, yn 26 oed, cyfarfyddodd Evan Davies â damwain angeuol trwy foddi yn afon Taf, wrth fyn'd â'r ceffyl a'r fen yn groes o un lan i'r llall. Brodor oedd yr ymadawedig o Lluest, ger Talgarreg. Yr oedd yn ddyn tawel, hynaws, diddichell, ac yn aelod yn Siloa, Aberdar, a chyn hyny yn Pisgah, ger Talgarreg. Yr ail Fercher canlynol, symmudwyd ei ran farwol gyda'r gerbydres i orsaf Llandyssul, ac yna, i Gladdfa Llanarth, lle y gorwedd yn y llwch. Duw a fendithio ei fam alarus a'i theulu, i alaru yn gymmedrol, nid fel rhai heb obaith.

Hydref 6ed, yn 7 oed, bu farw Eleanor, merch David ac Elizabeth Evans, Pencaeau, Pencarreg. Ni fu y fechan yn glaf ond am wythnos. Claddwyd hi yn Nghapelygroes y dydd Sadwrn canlynol. Pregethodd T. T. ar yr achlysur.

Dowlais.—Hydref 15fed, yn nhy ei ewythr, 10, White-street, Mr David Lewis, o'r *enteric fever*, yn 23 oed. Yr oedd yn ddyn ieuanc a gerid yn fawr iawn ar gyfrif ei rinweddau. Bob amser, yr oedd yn serchog, ac yn ennill serch pawb a'i cyfarfyddai. Yr oedd yn un o aelodau mwyaf selog Eglwys Dowlais. Efe oedd ysgrifenydd cyntaf y banc cynnilo cyssylltiedig â'r Ysgol Sul. Yr oedd yn ddarllenwr gwych, ac yn weddiwr gafaelgar. Llawer gwaith y darfu, yn absenoldeb ei weinidog, fyned trwy y gwasanaeth ei hun. Am dane, nid gormod dweyd, yr hyn a allasai efe a'i gwnaeth. Ar y 19eg, cludwyd ei weddillion marwol o Ddowlais i Sir Aberteifi. Cyn cychwyn, darllenwyd gan weinidog Dowlais, a gweddiwyd gan y Parch. N. R. Williams; yna, gorymdeithiwyd i orsaf

Merthyr. Daeth lluaws i gyfarfod â'r tren i Faesycrugiau, o'r hwn le yr hebryngwyd ei gorff i Cross Inn. Dranoeth y cymmerodd ei angladd le. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. W. J. Davies, Dowlais. Yna, aethpwyd i Gapely-Groes, pan y gwasanaethodd yr hybarch dad, T. Thomas. Ar lan y bedd, gweddiodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd y Parchn. J. Williams, Penrhiw, a D. Evans, Cribin, hefyd yn bresenol. Cynnrychiolwyd Eglwys Dowlais yn yr angladd gan y gweinidog a Mr. Jonah Davies, a'r Ysgol Sul gan Mr. D. Evans, arolygydd. Dymunwn o'n calon i'r fam, y taid, a'r perthynasau oll, yn eu trallod, sugno eu cyssur oddiwrth Dduw y dyddanwch, a bydded iddynt gofio mai yr Hwn a greodd sydd wedi cymmeryd ymaith, bendigedig fyddo Ei enw. Cynnaliwyd dau wasanaeth coffadwriaethol am y brawd ffyddlon yn Nowlais, dydd Sul, Tachwedd 21ain, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. N. R. Williams a W. J. Davies.

Am D. Lewis mae da lawer—i'w ddweyd ;
Oedd ddyn hoff ei dymher ;
Un gwâr iawn, cyfiawn, cofier,
A hynaws fu'n ei oes fer.

Ni fu dyn yn fwy denol,—onid yw
Yn deg i mi ganmol
Un oedd flynyddoedd yn ol
Yn foesgar yn fy ysgol ?

Oedd ddianaf ei ddoniau ;—e' basiodd
Bwysig arholiadau ;
Fe wyr gwyr pybyr eiu pau
Na fu lwfr efo'i lyfrau.

" Nos da " i hwn nes dihuna ;—ar ei ol
Rhyw alar ymdaena ;
Nid gwewyr byr ei bara
Yw colli dyn call a da.

Ofnai Dduw—ni fu'n ei ddydd—ei burach ;
E' berai gywilydd
I wawdwyr ffol—o du'r ffydd
Hyf a dyfal fu Dafydd.

Un glân ei drem, gelyn i drais,—oedd ef ;
E' ddofai uchelgais ;
Un bywiol oedd ; heb ei lais
Go niwlog yw yn Nowlais. *

Yno 'roedd yn nhy ei Ri—yn aelod
Anwylaf am flwyddi ;
Pwy geir fel hwn ? Ni wn I
Am un â mwy o yni.

Oedd ddyn llawn o'r iawn ryw ;—e' garai
A gwir les dynolryw ; [lwydd
Un dyddan oedd, ond heddyw
Mae e'n ei fedd, *a mi'n fyw !*

Tach. 9, 1886. *Dewi Hefin.*

Hydref 16eg, yn 61 oed, William Davies, Station-road, Llandyssul, gynt Gilfachwen Uchaf. Claddwyd yn Llwynrhydowen, y dydd Mercher canlynol, a phregethodd y gweinidog oddiar y geiriau, " Megys deilen y syrthiasom ni oll." Tad y trugareddau a Duw pob dyddanwch fyddo yn nodded i'r weddw a'r plant.

Hydref 19eg, yn 55 mlwydd oed, ar ol cystudd hir, Mary Evans, Gwarallt, Llanwenog. Claddwyd yn Mynwent Alltyplaca, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y gweinidog. Yr oedd y chwaer hon yn un o ffyddloniaid yr achos da yn yr eglwys uchod, a theimlir hiraeth a cholled cyffredinol ar ei hol. Ein gweddi yw fod i Arglwydd y cynauaf anfon gweithwyr o gyffelyb yspryd etto i'w gynauaf.

Hydref 20fed, yn Llwyncelyn, Libanus, Aberhonddu, Elizabeth Williams, priod W. Williams, Cottage, Dowlais, yn 28 oed. Bu yn clafychu am beth amser cyn ei marwolaeth, a chafodd y fraint o gael pobpeth a allasai dyn wneuthur er ei gwella, ond y cwbl yn ofer. Yr oedd y chwaer ymadawedig yn aelod selog yn Nowlais. Teimlwn yn flin iawn o herwydd ei cholli, o herwydd yr oedd ei chalon yn y gwaith da bob amser. Dydd Llun, y 25ain, oedd diwrnod ei chladdedigaeth. Cyn cychwyn, darllenwyd a gweddiwyd gan weinidog Dowlais, yna, awd i Eglwys Cwmtaf Fawr, lle y gwasanaethwyd gan offeiriad y plwyf. Gadawodd briod a dau o blant i alaru ar ei hol. Boed iddynt geisio ystyried fod yr Hwn sydd yn Dad yr amddifaid yn gwneuthur y cwbl er y goreu.

Hydref 29ain, yn 83 oed, James Jones, Caeran Bach, Llanwenog. Dyoddefodd yr hen Gristion hwn gystudd hir gyda'r amynedd a'r ymostyngiad allesid ddysgwyl oddiwrth un oedd wedi byw mewn hir gymmundeb â'i Dad, ac mewn llwyr ymddiried yn ei drefnau Ef. Bu yn aelod yn Llwynrhydowen am flynyddoedd meithion ac er fod y ffordd yn mhell, anaml yr oedd ei le yn wag yn y capel ar foreu Sul hyd tufewn i flwyddyn i'w farwolaeth. Ond er nad edwyn ei le ddim o hono ef mwy,

* Yr oedd yr ymadawedig yn aelod selog yn Nghapel yr Undodiaid, Dowlais.

ei "enw yn perarogli sydd," a'r gwir Gristion nid yw byth yn marw. Claddwyd ef yn Llwynrhydowen y dydd Mawrth canlynol. Pregethodd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn y tŷ, a gweddiodd ar lan y bedd. Darllenodd y gweinidog ran o'r gwasanaeth yn y capel.

Tach. 7fed, yn ddisymwth ac yn hollol annysgwyliadwy, Mary, merch Thomas a Mary Lewis, *Morning Star*, Cefncoed, yn 22 mlwydd oed. Dim ond diwrnod y bu'n glaf, ac ni feddyliai neb fod ei marwolaeth mor agos. Y dydd Mercher canlynol, daeth tyrfa luosog iawn yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i fynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Bydded i'r rhieni a'r perthynasau gofio addewidion gwerthfawr Efengyl Crist, a bydded iddynt alaru yn obeithiol am yr hon a dorwyd i lawr mor gynnar.

Tachwedd 10fed, yn 87 oed, bu farw Mary Evans, Cribin. Y dydd Llun canlynol, daeth tyrfa fawr o berthynasau a chyfeillion yn nghyd i'w hebrwng i'w bedd yn Mynwent Capel-y-groes. Pregethodd T. T. yn Nghapel Cribin cyn cychwyn.

Tach. 12fed, ar ol hir nychdod, o'r darfodedigaeth, Richard, mab William a Margaret Hughes, *Cross Keys*, Cefncoed, yn 22 mlwydd oed. Bu ein cyfaill ieuanc ac anwyl yn clafychu am tua blwyddyn, er ei fod ar adegau yn argoeli gwella, a chredai ei hunan ei fod ar wellhad. Parhaodd i fyn'd o amgylch hyd at wythnos cyn ei farwolaeth, pryd y cyfyngwyd ef i'w wely. Yr oedd yn ddyn ieuanc o rodiad prydferth ac o fuchedd loew, yn aelod ffyddlon o Ysgol Sul yr Hen Dy Cwrdd, ac yn un o'i hysgrifenyddion. Mae yn galed dygymmod â dygiad ymaith ein dynion ieuainc yn mlagur bywyd, pan oeddem yn edrych arnynt fel gobaith ein cynnulleidfaoedd, ac fel rhai oeddynt i gymmeryd lle y tadau. "Ond nid fy ffyrdd I yw eich ffyrdd chwi." Yr ydys yn cydymdeimlo yn ddwys â'r rhieni trallodus sydd, mewn yspaid byr o naw wythnos, wedi colli eu hunig ddau fab, a hyny yn nhymhor mwyaf addawol eu hoes. Nerth a gaffont i weled fod holl ffyrdd Duw yn gyfiawn. Y dydd Llun canlynol, hebryngwyd ei weddillion gan dyrfa fawr i fynwent yr Hen Dy Cwrdd, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.

Tachwedd 16eg, yn 90 mlwydd oed, David Lloyd, Cwm'rhendryd, Plwyf Llanbedr. Claddwyd y dydd Gwener canlynol yn Mynwent Plwyf Llanwnen, a gwasanaethwyd yn y tŷ cyn cychwyn o'r orymdaith gan J. D., Alltyplaca, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y Ficer. Dyn syml, dirodres, oedd ein hen frawd, a gair da iddo gan y rhan amlaf, ac fel y credwn, gan y gwirionedd ei hun. Buasai yn aelod o'r eglwys yn Alltyplaca ar hyd ei oes faith, a mynychodd tra y gallodd. Nawdd y nefoedd fyddo ar ei unig ferch, yr hon a fu dyner wrtho trwy flynyddoedd ei wendid a'i lesgedd.

Bu farw, yn ddiweddar, Mr. G. B. Brock, o Abertawe, yr hwn a fu unwaith yn weinidog o gryn ddylanwad yn yr enwad. Yn amser ei weinidogaeth ef yr adeiladwyd y capel hardd presenol yn Abertawe. Sul, Tachwedd 7, traddododd ei fab-yn-nghyfraith, y Parch. J. E. Manning, M.A., bregeth angladdol iddo oddiar y geiriau, "Rhydd efe hûn i'w anwylyd" (Salm cxxvii. 2). Yr oedd Mr. Brock yn 86 oed.

NOAH DAVIES, GWERNLLWYN FARM, GELLIONEN.

Tynghed y diniwed Noah—a ddaeth
Er ei ddwyn i'r gladdfa ;
O gadwyn bedd 'e goda
Duw y dyn o rodiad da.

Wr hyglod, dirfawr wagle—a welir
Ar ei aelwyd gartre';
Tad di-ail lanwai'i le
Yn beraidd hwyr a boreu.

Undodwr heb wendidau—iach ydoedd
A chedyrn resymau ;
Daliai mai'r Tad trwy'n gwlad yn glau
Addolir gan iawn feddyliau.

Gerwin golled geir'n y Gelli—am'r un
A fu mor hael i ni ;
Dyn ei fron yn dân o fri,
A'i anian ar ddaioni.

Yn yr eglwys, arweiniwr hyglod—fu
Am ran fawr o'i gyfnod ;
A chanai'n orwych hynod
Hen donau lu tra bu'n bod.

Heb ball 'e gân bellach—yn y byd
Lle nad oes boen mwyach ;
A'i ganu yn amgenach,
Yn llys Ion gyda llais iach.

Trebannos. *H. Morgan.*

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—Rev. J.B.Ll., Essex; Mrs. W., London; H.J., Glyn Neath; M.J., London.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders.* Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

CWRDD NADOLIG.

Ni chynnelir ef yn Llandilo fel yr oeddid wedi bwriadu.

J. EVANS.

PREGETHAU Y PARCH. W. THOMAS, M.A.

Dymunwn alw sylw at y gyfres a ddechreuodd gyda rhifyn Awst, a byddwn yn falch i gael anfon copïau ychwanegol at ein dosparthwyr.

CYHOEDDIR TUA DIWEDD Y FLWYDDYN

"BANNAU FFYDD UNDODWR."

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Darllener y sylw a wneir o'r llyfr yn y rhifyn diweddaf. Yr ydys yn gobeithio na fydd y pris ddim dros 6c. Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

TANYSGRIFIADAU.

	£	s.	c.
Miss Jones, Wern Cottage	0	5	0
Dau Gyfaill	0	5	0

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(AIL ARGRAFFIAD),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

PRIS—DWY GEINIOG.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.